**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL
# GENERAL LICENSING COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10.00am DYDD LLUN, 24 MEHEFIN 2013**

**10.00am MONDAY, 24 JUNE 2013**

Lleoliad / Location

**SIAMBR DAFYDD ORWIG,**
**SWYDDFEYDD Y CYNGOR,**
**CAERNARFON**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**GWYN PARRY WILLIAMS**

**(01286) 679665**

gwynparrywilliams@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd/Distributed 14.06.13

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

**GENERAL LICENSING COMMITTEE**

**Aelodaeth/Membership** (15)

**<u>Plaid Cymru (7)</u>**

Y Cynghorwyr/Councillors

| | |
|---|---|
| Eddie Dogan | Huw Edwards |
| Annwen Hughes | Chris Hughes |
| W. Tudor Owen | Ann Williams |
| Gethin G. Williams | |

**<u>Annibynnol/Independent (4)</u>**

Y Cynghorwyr/Councillors

| | |
|---|---|
| Eryl Jones-Williams | Christopher O'Neal |
| Angela Russell | Elfed Williams |

**<u>Llais Gwynedd (4)</u>**

Y Cynghorwyr/Councillors

| | |
|---|---|
| John Brynmor Hughes | Llywarch Bowen Jones |
| Peter Read | Gruffydd Williams |

**<u>Aelod Ex-officio/Ex-officio Member</u>**

Is-Gadeirydd y Cyngor/Vice-Chairman of the Council

# RHAGLEN

**1. CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd am 2013/14

**2. IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-gadeirydd am 2013/14

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatgan o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**6. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod diwethaf y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 17 Medi, 2012, fel rhai cywir.

(copi yma – papur **gwyn**)

**7. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion cyfarfodydd o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol –

a) 18 Hydref 2012
b) 10 Rhagfyr 2012
c) 4 Mawrth 2013
ch) 22 Ebrill 2013

(copi yma – papur **gwyrdd**)

**8. FFIOEDD ARFAETHEDIG TRWYDDEDAU CERBYDAU HACNI, HURIO PREIFAT A GWEITHREDWYR**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Adran Rheoleiddio

(copi yma – papur **aur**)

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL, 17.09.12

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd W.Tudor Owen (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr**:** Eddie Dogan, Annwen Hughes, Chris Hughes, John Brynmor Hughes, Llywarch Bowen Jones, Eryl Jones-Williams, Christopher O'Neal, Peter Read, Angela Russell, Ann Williams, Elfed W. Williams, Gethin G. Williams, Gruffydd Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Siôn Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth a Iaith), Gwenan M. Williams (Rheolwr Trwyddedu), Sheryl Le Bon Jones (Rheolwr Systemau Gweithredol) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Huw Edwards

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Eryl Jones-Williams bod ei wraig yn anabl.

'Roedd yr aelod o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a chymerodd ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitem.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2012, fel rhai cywir.

## 3. DIRPRWYO HAWL I'R PENNAETH GWASANAETH WNEUD PENDERFYNIAD LLE MAE TYSTIOLAETH YN CYFIAWNHAU GWYRIAD O'R POLISI TRWYDDEDU CERBYDAU HACNI A HURIO PREIFAT

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Adran Rheoleiddio ar ddirprwyo hawl iddo wneud penderfyniad lle mae tystiolaeth yn cyfiawnhau gwyriad o'r Polisi Trwyddedu Cerbydau Hacni a Hurio Preifat.

Adroddwyd gan y Rheolwr Trwyddedu y cafwyd sawl achlysur diweddar lle yr heriwyd y Polisi Trwyddedu Cerbydau Hacni a Hurio Preifat ar sail tystiolaeth o safbwynt rhai materion penodol.

Nododd bod yr amodau safonol sy'n berthnasol i'r prosesau a'r gyfundrefn trwyddedu cerbydau hacni a hurio preifat yn bolisi a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn unol ag Adrannau 47 a 48 o Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. Mae'n angenrheidiol bod yr amodau'n adlewyrchu newidiadau mewn amgylchiadau neu ddeddfwriaeth, ac o'r herwydd mae'n ofynnol adolygu'r amodau sy'n y polisi o bryd i'w gilydd. Adolygwyd y polisi ddiwethaf gan y pwyllgor hwn ar 22 Hydref 2010. Yn achlysurol, deuai amgylchiadau i'r amlwg lle y cyflwynir sail tystiolaeth i herio agweddau arbennig o'r polisi, ac mae'n ofynnol i'r Awdurdod Trwyddedu

adolygu a newid yr amodau i adlewyrchu hynny. Yn ddiweddar, heriwyd y polisi ar y materion canlynol yn benodol –

Cerbydau Hacni

- Bod rhaid i gerbyd fod dan dair oed pan wneir cais am drwydded ym Mharth Arfon ar gyfer platiau tros rif 99.
- Bod rhaid i gerbyd fod dan chwech oed pan wneir cais am drwydded ym Mharthau Dwyfor a Meirionnydd.
- Bod rhaid i gerbydau a drwyddedir ar blatiau rhif tros 99 ym Mharth Arfon fod gyda mynediad cadair olwyn o'r ochr ac yn gerbydau a adeiladwyd yn bwrpasol i'r perwyl hwn.
- Bod rhaid i gerbyd newydd mewn perthynas â chais i drosglwyddo plât hacni ym Mharth Arfon ar gyfer rhifau tros 99 fod dan tair oed pan wneir y cais ac yn gallu derbyn cadair olwyn o'r ochr.
- Bod rhaid i gerbyd newydd mewn perthynas â chais i drosglwyddo trwydded hacni i gerbyd arall ym Mharthau Meirionnydd a Dwyfor fod dan chwech oed.
- Parhâd trefniant "Hawliau Taid", lle mae gan y 98 plât hacni ym Mharth Arfon warchodaeth oddiwrth anghenion polisi mewn perthynas ag oedran y cerbyd a'r angen am fynediad cadair olwyn o'r ochr.

Cerbydau Hurio Preifat

- Bod rhaid i gerbyd fod dan chwech oed pan wneir cais am drwydded cerbyd hurio preifat ym Mharthau Arfon, Dwyfor a Meirionnydd.
- Bod rhaid i gerbyd newydd mewn perthynas â chais i drosglwyddo trwydded hurio preifat i gerbyd arall ym Mharthau Arfon, Dwyfor a Meirionnydd fod dan chwech oed.

Nododd bod cyfyngiadau oedran presennol y polisi yn deillio o ymgais yn hanesyddol i gael gweithredwyr i ddod a cherbydau newydd, ieuengach i'w fflyd. I raddau helaeth mae'r bwriad hwn wedi ei wireddu ac mae'r gweithredwyr a'r gyrwyr eu hunain yn gweld manteision o sicrhau nad yw'r cerbydau yn eu fflyd yn rhy hen. Rhagwelir y byddai'r diwydiant yn parhau i weld manteision adnewyddu eu cerbydau yn rheolaidd, hyd yn oed petai uchafswm oedran cerbyd ar gais am drwydded yn cael ei godi. Nododd mai diogelwch y cyhoedd yw'r brif ystyriaeth o ran oedran cerbyd ac os y gallai gweithredwr neu yrrwr brofi drwy gyfrwng dau brawf mecanyddol y flwyddyn (MOT a phrawf ychwanegol y Cyngor) bod cerbyd yn ddiogel ar y ffordd, yna nid oes sail i wrthod trwyddedu cerbyd ar sail oedran. Er hynny, 'roedd o'r farn y dylid cadw uchafswm oedran cerbyd fel yn y polisi presennol, sy'n sicrhau bod trwydded unrhyw gerbyd, yn dilyn adnewyddu blynyddol o'r drwydded, yn cael ei ddiddymu unwaith mae'r cerbyd yn ddeuddeg oed.

Cyflwynwyd yr angen am ddarpariaeth o gerbydau gyda mynediad cadair olwyn sy'n llwytho o'r ochr yn y polisi, gyda'r bwriad o annog y diwydiant tacsi yng Ngwynedd i ddarparu cerbydau hacni a oedd yn debygol o fod yn gymwys dan unrhyw reoliadau arfaethedig a ddisgwyliwyd dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995. Nid oes rheoliadau mewn perthynas â

cherbydau tacsi wedi eu gwneud hyd yma dan y ddeddfwriaeth hon ac mae'n annhebygol y bydd unrhyw reoliadau'n dod i rym yn y dyfodol. Cyflwynwyd tystiolaeth yn ddiweddar gan rhai yn y diwydiant cerbydau tacsi yng Ngwynedd yn herio'r angen am gerbydau mynediad cadair olwyn o'r ochr. Mae'r mwyafrif o ddefnyddwyr cadair olwyn yn dueddol o ffonio i archebu cerbyd hurio ymlaen llaw yn hytrach na dewis cerbyd hacni oddi ar y stryd.

Nododd ymhellach, bod llawer o weithredwyr a gyrwyr cerbydau preifat yn ddiweddar wedi adnabod bwlch yn y farchnad o safbwynt darpariaeth cerbydau mynediad cadair olwyn. Dyma'r cerbydau a ddefnyddir ar gyfer cytundebau ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol yn ogystal â darparu gwasanaeth cludiant i ysbytai. Mae'r diwydiant yn awyddus i ymateb i'r galw, ac mae'r Cyngor yn awyddus i sicrhau nad yw'r gofyniad presennol o gerbydau wedi ei adeiladu'n bwrpasol (h.y. heb ei addasu) gyda mynediad cadair olwyn o'r ochr, yn llesteirio'r awydd i ddarparu mwy o gerbydau mynediad cadair olwyn. Mae'r angen am ddarpariaeth o'r fath yn deillio o gyfarwyddyd a dderbyniwyd rhai blynyddoedd yn ôl, yn dilyn pryderon diogelwch ar lecynnau aros cerbydau hacni yng nghanol Llundain. Nid oes tystiolaeth o bryderon cyffelyb yng Ngwynedd.

Cyfeiriodd at y ffaith bod safonau penodol yn bodoli erbyn hyn o safbwynt ansawdd a diogelwch addasiadau ar gerbydau er mwyn eu galluogi i gario cadeiriau olwyn. Cyn belled bod y polisi'n cydnabod yr angen i addasiadau ar gerbyd fod wedi eu gwneud yn unol â'r safonau cydnabyddedig a bod y gwaith addasu'n cael ei archwilio gan gwmniau cymwys, ni welir bod angen parhau i ofyn am gerbydau a adeiladwyd i'r pwrpas o'r dechrau.

Bydd angen adolygu'r polisi yn ei gyfanrwydd yn y dyfodol agos yn unol ag amgylchiadau cyfredol a newidiadau posibl mewn deddfwriaeth. Ymgynghorir â'r aelodau, y cyhoedd a'r diwydiant fel rhan o'r broses hon.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed oedran cerbyd, hysbysodd y Rheolwr Trwyddedu bod y cyfyngiad oedran eisoes yn weithredol pan mae cerbyd yn 12 oed. Nododd os y dileeir y cyfyngiad oedran yna 'roedd posibilrwydd y ceid gormod o hen gerbydau yn y fflyd. Mae bob cerbyd yn cael profion mecanyddol er sicrhau diogelwch i'r cyhoedd.

Tynnodd aelod sylw at y gwahaniaeth rhwng y dair parth o safbwynt cyflwyno cais am drwydded cerbyd hacni. Mewn ymateb, hysbysodd y Rheolwr Trwyddedu, yn hanesyddol bod yna barthau gwahanol yng Ngwynedd. 'Roedd hyn yn bodoli ers dyddiau cyn-Gynghorau Arfon, Dwyfor a Meirionnydd. Nododd y cafwyd trafodaeth eisoes yn y pwyllgor hwn parthed dileu'r parthau ond mae'r diwydiant yn gryf yn erbyn cael gwared â'r warchodaeth yn y platiau dan 99 ym Mharth Arfon. Nododd ymhellach bod yna sawl Cyngor gyda parthau gwahanol, ond os yw'r diwydiant yn parhau yn awyddus i gadw'r parthau yna dylid sicrhau tegwch rhwng y dair parth. Gellir rhoddi ystyriaeth pellach i'r mater pan adolygir y polisi.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Adran Rheoleiddio, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y**

**Pwyllgor, i ganiatau penderfyniadau trwyddedu cerbydau tacsis sy'n gwyro oddi wrth y polisi cyfredol ar y materion a nodir uchod.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.40a.m. a daeth i ben am 11.10am

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 18.10.12

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd W. Tudor Owen (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Angela Russell, Elfed Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Sion Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith), Gwenan Williams (Rheolwr Trwyddedu) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Eraill yn bresennol:** Mr A (ymgeisydd) a'i gynrychiolydd.

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolyn dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am ei adnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

**3. CAIS AM DRWYDDED GYRRWR HACNI / HURIO PREIFAT**

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu yr adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A. am drwydded gyrrwr hacni / hurio preifat. Eglurodd fod datganiad o gollfarnau yn cyfeirio at droseddau perthnasol, ac mewn achosion o'r fath, nid oes hawl gan swyddogion i ystyried y cais ac felly cyflwynwyd yr achos hwn i ystyriaeth yr is-bwyllgor. Ystyriodd yr is-bwyllgor yn Chwefror 2012 gais cyffelyb gan yr ymgeisydd pryd y penderfynwyd gwrthod trwydded oherwydd bod y collfarnau perthnasol wedi digwydd yn rhy ddiweddar. Mewn ymateb i'r penderfyniad, hysbysodd yr ymgeisydd ei fod am wneud cais i'r Biwro Cofnodion Troseddol i adolygu ei gofnod troseddol gan nad oedd yn gywir. Derbyniwyd erbyn hyn, gofnod diwygiedig gan y Biwro Cofnodion Troseddol, a chyflwynir y cais hwn ar sail y cofnod hwnnw, sy'n adlewyrchiad cywir o sefyllfa'r ymgeisydd.

Dosbarthwyd copïau o adroddiad diwygiedig y Biwro Cofnodion Troseddol i'r aelodau.

Wrth ystyried y cais, dilynwyd y drefn ganlynol –

1. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
2. Gwahoddwyd yr ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
3. Gwahoddwyd yr ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd i ymhelaethu ar y cais.
4. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd.

5. Gwahoddwyd cynrychiolydd y Cyngor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd.
6. Rhoddwyd cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

Hysbysodd yr ymgeisydd, iddo yn flaenorol fod yn gyrru loriau, ond yn 2011 cafodd driniaeth i'w gefn ac oherwydd hynny'n methu gwneud gwaith trwm mwyach fel gyrru loriau neu waith amaethyddol. Byddai cael trwydded gyrrwr hacni/hurio preifat yn fodd iddo geisio ennill bywoliaeth. 'Roedd yn cydnabod bod ganddo gollfarnau yn y gorffennol a gofynnodd i'r is-bwyllgor ystyried rhoddi cyfle iddo brofi ei hun. 'Roedd hefyd yn hyderus y gallai ymdrin â chwsmeriaid anodd heb gynhyrfu.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor.

Cymerodd yr Is-bwyllgor i ystyriaeth ganllawiau'r Cyngor am droseddau sy'n darparu –

- *"Ymdrinnir yn llym iawn ag ymgeiswyr gydag euogfarnau am niwed corfforol difrifol, clwyfo, ymosod neu unrhyw drosedd o natur dreisgar.*
- *Rhaid i ymgeisydd fod heb dderbyn euogfarnau am o leiaf tair blynedd cyn y gellir ystyried cais.*
- *Ym mhob achos, os caniateir trwydded, rhoddir rhybudd llym ynglyn ag ymddygiad disgwyliedig gyrwyr trwyddedig."*

'Roedd y drosedd olaf a ddatgelwyd wedi digwydd mwy na thair blynedd yn ôl, ac felly yn ôl y canllawiau, 'roedd y cais yn un y gellid ei ystyried. Cymerwyd i ystyriaeth bod chwe blynedd wedi mynd heibio ers y drosedd ac nad oedd tystiolaeth bod yr ymgeisydd wedi bod mewn unrhyw drwbl ers hynny. Teimlai'r Is-bwyllgor i'r ymgeisydd gydnabod difrifoldeb y troseddau ac wedi derbyn cyfrifoldeb amdanynt ac wedi dangos edifeirwch. O ganlyniad, ar ôl ystyriaeth fanwl o'r dystiolaeth, ac am y rhesymau uchod, penderfynodd yr Is-bwyllgor bod yr ymgeisydd yn berson addas i gael trwydded yrru, a chaniatawyd y cais. Fodd bynnag, cytunwyd i dynnu sylw'r ymgeisydd at safon ymddygiad uchel a ddisgwylir ganddo fel gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat ac iddo dderbyn hyn fel rhybudd llym ynglyn â'i ymddygiad i'r dyfodol.

**PENDERFYNWYD caniatau cais Mr A. am drwydded hacni / hurio preifat.**

Adroddodd y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith y byddai'n anelu i anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeisydd o benderfyniad yr Is-bwyllgor ac yn ei hysbysu o'i hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 2.30pm.

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 10.12.12

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd W. Tudor Owen (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Angela Russell, Elfed Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Sion Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith), Gwenan Williams (Rheolwr Trwyddedu) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

## 3. CAIS MR A. AM DRWYDDED GYRRWR HACNI / HURIO PREIFAT

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu yr adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A. am drwydded gyrrwr hacni / hurio preifat. Eglurodd fod datganiad o gollfarn yn cyfeirio at droseddau perthnasol, ac mewn achosion o'r fath, nid oes hawl gan swyddogion i ystyried y cais ac felly cyflwynwyd yr achos hwn i ystyriaeth yr is-bwyllgor.

Wrth ystyried y cais, dilynwyd y drefn ganlynol –

1. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
2. Gwahoddwyd yr ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
3. Gwahoddwyd yr ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd i ymhelaethu ar y cais.
4. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd.
5. Gwahoddwyd cynrychiolydd y Cyngor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd.
6. Rhoddwyd cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

Rhoddodd yr ymgeisydd fanylion am y digwyddiad ar 30 Awst 2011 pryd y cafodd ei brofocio'n helaeth gan ddau berson arall gan achosi niwed corfforol. Addawodd na fyddai unrhyw beth cyffelyb yn digwydd eto. 'Roedd yn ddiwaith ar hyn o bryd ac y byddai cael trwydded yn fodd iddo gael gwaith unwaith yn rhagor.

‘Roedd perchennog y busnes yn bresennol yn y cyfarfod i siarad ar ran yr ymgeisydd pryd y tystiodd ynglyn â’i gymeriad a chadarnhaodd ei fod yn awyddus i’w gyflogi.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau’r Is-bwyllgor.

Cymerodd yr Is-bwyllgor i ystyriaeth ganllawiau’r Cyngor am droseddau sy’n darparu –

- *“Ymdrinnir yn llym iawn ag ymgeiswyr gydag euogfarnau am niwed corfforol difrifol, clwyfo, ymosod neu unrhyw drosedd o natur dreisgar.*
- *Rhaid i ymgeisydd fod heb dderbyn euogfarnau am o leiaf tair blynedd cyn y gellir ystyried cais.*
- *Ym mhob achos, os caniateir trwydded, rhoddir rhybudd llym ynglyn ag ymddygiad disgwyliedig gyrwyr trwyddedig.”*

‘Roedd y drosedd olaf a ddatgelwyd wedi digwydd o fewn y cyfnod o 3 i 5 mlynedd a nodir yn y polisi a rhoddwyd ystyriaeth i wrthod y cais am y rheswm hwnnw. Fodd bynnag, cymerwyd i ystyriaeth mai dim ond un trosedd a ddatgelwyd a bod hwn, o ystyried oed yr ymgeisydd, yn ymddangos fel un digwyddiad heb batrwm neu hanes o ymddygiad tebyg. Am y rhesymau uchod, penderfynodd yr Is-bwyllgor bod yr ymgeisydd yn haeddu cyfle ac yn berson addas i gael trwydded yrru, a chaniatawyd y cais. Fodd bynnag, cytunwyd i dynnu sylw’r ymgeisydd at safon ymddygiad uchel a ddisgwylir ganddo fel gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat ac iddo dderbyn hyn fel rhybudd llym ynglyn â’i ymddygiad i’r dyfodol.

**PENDERFYNWYD caniatau cais Mr A. am drwydded hacni / hurio preifat.**

Adroddodd y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith y byddai’n anelu i anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu’r ymgeisydd o benderfyniad yr Is-bwyllgor ac yn ei hysbysu o’i hawl i apelio i’r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

## 4. CAIS MR B. AM DRWYDDED GYRRWR HACNI / HURIO PREIFAT

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu yr adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr B. am drwydded gyrrwr hacni / hurio preifat. Eglurodd fod datganiad o gollfarn yn cyfeirio at droseddau perthnasol, ac mewn achosion o’r fath, nid oes hawl gan swyddogion i ystyried y cais ac felly cyflwynwyd yr achos hwn i ystyriaeth yr is-bwyllgor.

Nid oedd yr ymgeisydd wedi presennoli ei hun yn yr Is-bwyllgor ond cytunodd yr aelodau y dylid ystyried y cais yn ei absenoldeb.

Ystyriodd yr Is-bwyllgor adroddiad gan y Biwro Cofnodion Troseddol a ddatgelodd collfarn dyddiedig 27 Ionawr 2012 am ladrad gan weithiwr. Ystyriwyd hefyd sylwadau ychwanegol yr heddlu parthed y lladrad. Datgelwyd y wybodaeth hon oherwydd i’r ymgeisydd gamddefnyddio safle o ymddiriedaeth a bod hyn yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun cyfrifoldebau gyrrwr tacsi. Ystyriwyd hefyd bolisi’r Cyngor ar gollfarnau, sy’n datgan nad oes angen i berson gyda chollfarn(au) yn ei erbyn, gael ei wahardd yn barhaol rhag derbyn trwydded, ond disgwylir iddo fod yn rhydd o gollfarn am 3-5 mlynedd yn ôl yr amgylchiadau cyn yr ystyrir rhoddi trwydded iddo, a thra gallai’r Cyngor ddefnyddio ei ddisgresiwn, y brif ystyriaeth yw amddiffyn y cyhoedd. Datgan y polisi’n benodol y dylid ystyried unrhyw euogfarnau yn ymwneud ag anonestrwydd yn ddifrifol ac y dylai cyfnod o leiaf tair i bum mlynedd fynd heibio heb dderbyn euogfarnau cyn y gellir ystyried y cais.

‘Roedd yr Is-bwyllgor yn cytuno bod y drosedd yn un ddifrifol ac o’r farn bod medru ymddiried mewn gyrrwr, oherwydd natur ei waith, yn holl bwysig. Adlewyrchir hyn ym mholisi’r Cyngor ac nid oedd unrhyw dystiolaeth gerbron yr Is-bwyllgor oedd yn awgrymu pam na ddylid dilyn y polisi yn yr achos hwn. Penderfynwyd felly gwrthod y cais.

**PENDERFYNWYD gwrthod cais Mr B. am drwydded hacni / hurio preifat.**

Adroddodd y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith y byddai'n anelu i anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeisydd o benderfyniad yr Is-bwyllgor ac yn ei hysbysu o'i hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

**5. CAIS MR C. AM DRWYDDED GYRRWR HACNI / HURIO PREIFAT**

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu yr adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr C. am drwydded gyrrwr hacni / hurio preifat. Eglurodd fod datganiad o gollfarn yn cyfeirio at droseddau perthnasol, ac mewn achosion o'r fath, nid oes hawl gan swyddogion i ystyried y cais ac felly cyflwynwyd yr achos hwn i ystyriaeth yr is-bwyllgor.

Wrth ystyried y cais, dilynwyd y drefn ganlynol –

1. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
2. Gwahoddwyd yr ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
3. Gwahoddwyd yr ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd i ymhelaethu ar y cais.
4. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd.
5. Gwahoddwyd cynrychiolydd y Cyngor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd.
6. Rhoddwyd cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

Rhoddodd yr ymgeisydd fanylion am y digwyddiad domestig, teuluol ar 27 Mai 2007 a chadarnhaodd nad oedd y problemau hyn yn bodoli mwyach ac ni fyddai unrhyw beth tebyg yn digwydd eto.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor.

Cymerodd yr Is-bwyllgor i ystyriaeth ganllawiau'r Cyngor am droseddau sy'n darparu –

- *"Ymdrinnir yn llym iawn ag ymgeiswyr gydag euogfarnau am niwed corfforol difrifol, clwyfo, ymosod neu unrhyw drosedd o natur dreisgar.*
- *Rhaid i ymgeisydd fod heb dderbyn euogfarnau am o leiaf tair blynedd cyn y gellir ystyried cais.*
- *Ym mhob achos, os caniateir trwydded, rhoddir rhybudd llym ynglyn ag ymddygiad disgwyliedig gyrwyr trwyddedig."*

'Roedd y drosedd olaf a ddatgelwyd wedi digwydd tros 5 mlynedd yn ôl ac nad oes tystiolaeth o unrhyw broblemau ers hynny. Byddai caniatau'r drwydded felly'n cydymffurfio â pholisi'r Cyngor. Am y rhesymau hyn, penderfynodd yr Is-bwyllgor bod yr ymgeisydd yn berson addas i gael trwydded yrru, a chaniatawyd y cais. Fodd bynnag, cytunwyd i dynnu sylw'r ymgeisydd at safon ymddygiad uchel a ddisgwylir ganddo fel gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat ac iddo dderbyn hyn fel rhybudd llym ynglyn â'i ymddygiad i'r dyfodol.

**PENDERFYNWYD caniatau cais Mr C. am drwydded hacni / hurio preifat.**

Adroddodd y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith y byddai'n anelu i anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeisydd o benderfyniad yr Is-bwyllgor ac yn ei hysbysu o'i hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

## 6. CAIS MR D. AM DRWYDDED GYRRWR HACNI / HURIO PREIFAT

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu yr adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr D. am drwydded gyrrwr hacni / hurio preifat. Eglurodd fod datganiad o gollfarn yn cyfeirio at droseddau perthnasol, ac mewn achosion o'r fath, nid oes hawl gan swyddogion i ystyried y cais ac felly cyflwynwyd yr achos hwn i ystyriaeth yr is-bwyllgor.

Wrth ystyried y cais, dilynwyd y drefn ganlynol –

1. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
2. Gwahoddwyd yr ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
3. Gwahoddwyd yr ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd i ymhelaethu ar y cais.
4. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd.
5. Gwahoddwyd cynrychiolydd y Cyngor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd.
6. Rhoddwyd cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

Rhoddodd yr ymgeisydd fanylion am y digwyddiad sef i berson ymosod arno a'i gyfaill heb unrhyw gymhelliant ac iddo geisio amddiffyn ei hun. Nododd iddo yrru tacsis am 10 mlynedd heb unrhyw drafferthion.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor.

Cymerodd yr Is-bwyllgor i ystyriaeth ganllawiau'r Cyngor am droseddau sy'n darparu –

- *"Ymdrinnir yn llym iawn ag ymgeiswyr gydag euogfarnau am niwed corfforol difrifol, clwyfo, ymosod neu unrhyw drosedd o natur dreisgar.*
- *Rhaid i ymgeisydd fod heb dderbyn euogfarnau am o leiaf tair blynedd cyn y gellir ystyried cais.*
- *Ym mhob achos, os caniateir trwydded, rhoddir rhybudd llym ynglyn ag ymddygiad disgwyliedig gyrwyr trwyddedig."*

'Roedd adroddiad y Biwro Cofnodion Troseddol yn datgelu rhybudd gan yr heddlu dyddiedig 21 Hydref 2011 am drosedd dan Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986. Ystyriwyd canllawiau'r Cyngor ar droseddau sy'n datgan y gallai cais sy'n dangos rhybudd, yn gyffredinol, gael ei ystyried a'i gymeradwyo, ond mai'r ystyriaeth pennaf yw gwarchod y cyhoedd. Ystyriwyd eglurhad yr ymgeisydd am y digwyddiad a chymerwyd i ystyriaeth mai trosedd trefn gyhoeddus oedd hon yn hytrach na throsedd o drais corfforol. Cafodd yr ymosodwr ar y llaw arall gyfnod o 18 mis yn y carchar am yr ymosodiad. Nodwyd hefyd i'r ymgeisydd yrru tacsis am 10 mlynedd heb unrhyw drafferthion. Nid oedd unrhyw reswm i feddwl bod perygl i ddiogelwch y cyhoedd drwy ganiatau'r cais. Am y rhesymau hyn, penderfynodd yr Is-bwyllgor bod yr ymgeisydd yn berson addas i gael trwydded yrru, a chaniatawyd y cais.

**PENDERFYNWYD caniatau cais Mr D. am drwydded hacni / hurio preifat.**

Adroddodd y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith y byddai'n anelu i anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeisydd o benderfyniad yr Is-bwyllgor ac yn ei hysbysu o'i hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

## 7. CAIS MR E. AM DRWYDDED GYRRWR HACNI / HURIO PREIFAT

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu yr adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr E. am drwydded gyrrwr hacni / hurio preifat. Eglurodd yr ymddengys o adroddiad y Biwro Cofnodion Troseddol nad oes gan yr ymgesydd gollfarnau, ond datgelodd yr heddlu wybodaeth ychwanegol ar yr adroddiad sy'n berthnasol i'r cais yn ymwneud â dau ddigwyddiad ar 24 Gorffennaf 2007 a 5 Mai 2012, ac mewn achosion o'r fath, nid oes hawl gan swyddogion i ystyried y cais ac felly cyflwynwyd yr achos hwn i ystyriaeth yr is-bwyllgor.

Wrth ystyried y cais, dilynwyd y drefn ganlynol –

1. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
2. Gwahoddwyd yr ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
3. Gwahoddwyd yr ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd i ymhelaethu ar y cais.
4. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd.
5. Gwahoddwyd cynrychiolydd y Cyngor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd.
6. Rhoddwyd cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

Eglurodd yr ymgeisydd ei fod yn ddi-waith ers pum mlynedd, ei fod yn dymuno gweithio a gan ei fod yn hoff o yrru, byddai bod yn yrrwr tacsi'n swydd addas. Cyfeiriodd at y syndrom sydd arno ac y byddai gweithio fel gyrrwr tacsi'n caniatau iddo gyfarfod â phobl newydd a gwneud ffrindiau newydd. Ni fyddai cael hyd at bedwar o bobl yn y car yn achosi unrhyw broblemau iddo. Nododd ei fwriad i fynychu cwrs sgiliau cymdeithasol gan awgrymu efallai y byddai'r is-bwyllgor yn dymuno caniatau trwydded ar ôl iddo fynychu'r cwrs hwnnw.

'Roedd Gweithiwr Cymdeithasol a chynrychiolydd o'r Gwasanaeth Adfocatiaeth hefyd yn bresennol yn y cyfarfod pryd yr eglurwyd bod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoddi pob gefnogaeth i'r ymgeisydd. Nodwyd i'r ymgeisydd gydnabod ei gamgymeriadau ac addawodd ymddwyn yn briodol o hyn ymlaen.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor.

Cymerodd yr Is-bwyllgor i ystyriaeth ganllawiau'r Cyngor am droseddau sy'n darparu –

- *"Ymdrinnir yn llym iawn ag ymgeiswyr gydag euogfarnau am niwed corfforol difrifol, clwyfo, ymosod neu unrhyw drosedd o natur dreisgar.*
- *Rhaid i ymgeisydd fod heb dderbyn euogfarnau am o leiaf tair blynedd cyn y gellir ystyried cais.*
- *Ym mhob achos, os caniateir trwydded, rhoddir rhybudd llym ynglyn ag ymddygiad disgwyliedig gyrwyr trwyddedig."*

'Roedd yr is-bwyllgor yn deall dymuniad yr ymgeisydd i weithio ac yn cydnabod y problemau a achoswyd gan ei gyflwr ond yr ystyriaeth pennaf bob amser yw gwarchod y cyhoedd. Er na ddatgelwyd unrhyw gollfarnau, 'roedd gan yr aelodau dystiolaeth o ymddygiad amhriodol. 'Roedd ymddygiad o'r fath yn annerbyniol ac ni ellir caniatau trwydded os oedd posibilrwydd gwirioneddol i ymddygiad o'r fath godi eto. Digwyddodd yr achos diweddaraf eleni ac er i bolisi'r Cyngor gyfeirio at gollfarnau, 'roedd yn seiliedig ar yr egwyddor y disgwylir i ymgeisydd fod yn rhydd rhag ymddygiad annerbyniol am gyfnod digonol o amser cyn y gellir ystyried trwydded, fel arfer 3-5 mlynedd. Ystyriwyd bod cefnogaeth ar gael i'r ymgeisydd ond ni fyddai'r gefnogaeth honno ar gael iddo pan yn

gweithio ar ben ei hun fel gyrrwr tacsi. Pryderwyd hefyd am ei ddiogelwch wrth ymdrin â'r math o sefyllfaoedd anodd ac ymosodol mae gyrrwr tacsi yn gorfod ei wynebu. Nodwyd bod rheidrwydd ar yr awdurdod trwyddedu i beidio â chaniatau trwydded oni bai ei fod "yn fodlon bod yr ymgeisydd yn berson abl a phriodol i ddal trwydded gyrrwr". Am y rhesymau a nodir uchod, nid oedd yr is-bwyllgor yn fodlon ei fod yn berson o'r fath ac felly penderfynwyd gwrthod y cais. Fodd bynnag, anogwyd yr ymgeisydd i fynychu'r cwrs sgiliau cymdeithasol ac i gymryd mantais o'r gefnogaeth sydd ar gael.

**PENDERFYNWYD gwrthod cais Mr E. am drwydded hacni / hurio preifat.**

Adroddodd y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith y byddai'n anelu i anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeisydd o benderfyniad yr Is-bwyllgor ac yn ei hysbysu o'i hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.30pm a daeth i ben am 3.20pm.

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 04.03.13

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd W. Tudor Owen (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Annwen Hughes, Angela Russell

**Hefyd yn Bresennol:** Sion Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith), Gwenan Williams (Rheolwr Trwyddedu) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

**3. CAIS MR A. AM DRWYDDED GYRRWR HACNI / HURIO PREIFAT**

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu yr adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A. am drwydded gyrrwr hacni / hurio preifat. Eglurodd fod datganiad o gollfarn yn cyfeirio at droseddau perthnasol, ac mewn achosion o'r fath, nid oes hawl gan swyddogion i ystyried y cais ac felly cyflwynwyd yr achos hwn i ystyriaeth yr is-bwyllgor. Cyfeiriodd at y gwahanol droseddau a gyflawnwyd rhwng 2002 a 2008.

Wrth ystyried y cais, dilynwyd y drefn ganlynol –

1. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
2. Gwahoddwyd yr ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
3. Gwahoddwyd yr ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd i ymhelaethu ar y cais.
4. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd.
5. Gwahoddwyd cynrychiolydd y Cyngor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd.
6. Rhoddwyd cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

Nododd yr ymgeisydd mai yn 2007 oedd y drosedd olaf ac ers hynny 'roedd wedi priodi a magu plant. 'Roedd yn ddi-waith ers dwy flynedd ac y byddai'r math hwn o waith yn addas iddo. Cydnabu iddo fynd drwy gyfnod anodd pan gyflawnodd y gwahanol droseddau a'i fod ar y pryd yn ddioddef o iselder ac o dan law meddyg. 'Roedd erbyn hyn wedi gwella'n llwyr.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor.

Cymerodd yr Is-bwyllgor i ystyriaeth ganllawiau'r Cyngor am droseddau sy'n darparu –

- *"Ymdrinnir yn llym iawn ag ymgeiswyr gydag euogfarnau am niwed corfforol difrifol, clwyfo, ymosod neu unrhyw drosedd o natur dreisgar.*
- *Rhaid i ymgeisydd fod heb dderbyn euogfarnau am o leiaf tair blynedd cyn y gellir ystyried cais.*
- *Ym mhob achos, os caniateir trwydded, rhoddir rhybudd llym ynglyn ag ymddygiad disgwyliedig gyrwyr trwyddedig."*

'Roedd y drosedd olaf a ddatgelwyd wedi digwydd tros 5 mlynedd yn ôl ac nad oes tystiolaeth o unrhyw broblemau ers hynny. Byddai caniatau'r drwydded felly'n cydymffurfio â pholisi'r Cyngor. Fodd bynnag, teimlwyd cyn penderfynu'n derfynol ar y cais, y byddai'n fanteisiol cael manylion gan feddyg yr ymgeisydd am ei gyflwr meddygol ar yr adegau y cyflawnwyd y troseddau.

**PENDERFYNWYD gohirio ystyried y cais er rhoddi cyfle i'r ymgeisydd gyflwyno tystiolaeth meddygol o'i gyflwr o fewn pythefnos.**

Adroddodd y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith y byddai'n anelu i anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeisydd o benderfyniad yr Is-bwyllgor.

## 4. CAIS MR B. AM DRWYDDED GYRRWR HACNI / HURIO PREIFAT

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu yr adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr B. am drwydded gyrrwr hacni / hurio preifat. Eglurodd fod datganiad o gollfarn yn cyfeirio at droseddau perthnasol, ac mewn achosion o'r fath, nid oes hawl gan swyddogion i ystyried y cais ac felly cyflwynwyd yr achos hwn i ystyriaeth yr is-bwyllgor. Cyfeiriodd at dri trosedd a gyflawnwyd yn ystod 2002 a 2010 a rhybudd a gafodd yn 2008.

Wrth ystyried y cais, dilynwyd y drefn ganlynol –

1. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
2. Gwahoddwyd yr ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
3. Gwahoddwyd yr ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd i ymhelaethu ar y cais.
4. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd.
5. Gwahoddwyd cynrychiolydd y Cyngor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd.
6. Rhoddwyd cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

Ymhelaethodd yr ymgeisydd ar y gwahanol droseddau. Cydnabu iddo yfed yn drwm am gyfnod, yn enwedig ar fîn nos, ar ôl gorffen gwaith. Cadarnhaodd nad oedd yn yfed alcohol ers y digwyddiad yn 2010 ac nad oedd yn cadw alcohol yn y tŷ erbyn hyn. Nododd iddo fynychu sesiynau cwnsela. 'Roedd yn awyddus i gael trwydded oherwydd y byddai'n fodd o ennill rhagor o arian a bod prinder gwaith yn yr ardal.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor.

Cymerodd yr Is-bwyllgor i ystyriaeth ganllawiau'r Cyngor am droseddau sy'n darparu –

- *"Ymdrinnir yn llym iawn ag ymgeiswyr gydag euogfarnau am niwed corfforol difrifol, clwyfo, ymosod neu unrhyw drosedd o natur dreisgar.*

- *Rhaid i ymgeisydd fod heb dderbyn euogfarnau am o leiaf tair blynedd cyn y gellir ystyried cais.*
- *Ym mhob achos, os caniateir trwydded, rhoddir rhybudd llym ynglyn ag ymddygiad disgwyliedig gyrwyr trwyddedig."*

'Roedd y drosedd olaf a ddatgelwyd wedi digwydd yn 2010 ac mae canllawiau'r Cyngor yn nodi bod rhaid i ymgeisydd fod heb dderbyn euogfarnau am o leiaf tair blynedd cyn y gellir ystyried cais. Fodd bynnag, oherwydd natur rhai o'r digwyddiadau, nid yw'n debygol o greu risg i bobl ac y cyflawnwyd y drosedd gyntaf tros 10 mlynedd yn ôl. Am y rheswm hwn, penderfynodd yr Is-bwyllgor bod yr ymgeisydd yn berson addas i gael trwydded yrru, a chaniatawyd y cais. Cytunwyd i dynnu sylw'r ymgeisydd at safon ymddygiad uchel a ddisgwylir ganddo fel gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat ac iddo dderbyn hyn fel rhybudd llym ynglyn â'i ymddygiad i'r dyfodol.

**PENDERFYNWYD caniatau cais Mr B. am drwydded hacni / hurio preifat.**

Adroddodd y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith y byddai'n anelu i anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeisydd o benderfyniad yr Is-bwyllgor ac yn ei hysbysu o'i hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

## 5. ATAL TRWYDDED GYRRWR HACNI/HURIO PREIFAT

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yr ataliwyd trwydded gyrrwr hacni/hurio preifat ar 6 Chwefror 2013, yn dilyn datgeliad gwybodaeth gan Heddlu Gogledd Cymru a Phanel Diogelu Plant Gwynedd. Rhoddodd fanylion am sail yr ataliad sy'n unol â darpariaeth Adran 61, Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. Nododd bod y gyrrwr ar hyn o bryd wedi ei ryddhau ar fechniaeth amodol gan yr heddlu. Gofynnodd am gymeradwyaeth yr Is-bwyllgor i'r ataliad.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r camau a gymerwyd gan y Swyddogion Gorfodaeth Trwyddedu yn atal y drwydded gyrrwr hacni/hurio preifat.**

Dechreuodd y cyfarfod am 11.30am a daeth i ben am 12.45pm.

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 22.04.13

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Eddie Dogan, Elfed Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Geraint Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Williams (Rheolwr Trwyddedu) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriad:** Y Cynghorydd Ann Williams

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

## 3. CAIS MR A. AM DRWYDDED GYRRWR HACNI / HURIO PREIFAT

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu yr adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A. am drwydded gyrrwr hacni/hurio preifat. Eglurodd fod datganiad o gollfarn yn cyfeirio at droseddau perthnasol, ac mewn achosion o'r fath, nid oes hawl gan swyddogion i ystyried y cais ac felly cyflwynwyd yr achos hwn i ystyriaeth yr is-bwyllgor.

Nododd yr ystyriodd yr is-bwyllgor ar 10 Rhagfyr 2012, gais blaenorol gan yr ymgeisydd ond ni fynychodd yr ymgeisydd na'i gynrychiolydd y gwrandawiad ar y pryd i egluro'r collfarn a ymddengys ar adroddiad y Biwro Cofnodion Troseddol. Penderfynodd yr is-bwyllgor wrthod y cais.

Ar 1 Chwefror 2013, derbyniwyd llythyr gan gyflogwr presennol yr ymgeisydd, sy'n rhedeg busnes tacsi, yn gofyn a oedd modd ailystyried cais yr ymgeisydd. Fe gyflwynodd dystiolaeth gyda'r llythyr yn egluro sefyllfa a chefndir collfarn yr ymgeisydd. Cafwyd arweiniad gan Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu, y Cynghorydd W. Tudor Owen ar y mater a gyfeiriodd bod hwn yn fater i'w benderfynu gan yr is-bwyllgor. Cafwyd arweiniad cyfreithiol pellach yn dilyn hyn, a chyfarwyddwyd yr ymgeisydd i gael gwyriad o'r newydd gan y Biwro Cofnodion Troseddol, gan bod yr adroddiad o'r cais gwreiddiol tros chwe mis oed. Yn dilyn hynny, cyflwynodd yr ymgeisydd gais arall am drwydded gyrrwr tacsi.

Wrth ystyried y cais, dilynwyd y drefn ganlynol –
1. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

2. Gwahoddwyd yr ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
3. Gwahoddwyd yr ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd i ymhelaethu ar y cais.
4. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd.
5. Gwahoddwyd cynrychiolydd y Cyngor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd.
6. Rhoddwyd cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

Nododd yr ymgeisydd nad oedd yn gyrru tacsi ers nifer o flynyddoedd. 'Roedd wedi cael problemau gyda gamblo yn y gorffennol ac iddo ladrata swm sylweddol o arian gan ei gyn gyflogwr. Oherwydd hyn fe gollodd ei swydd. Gorfu iddo ymgymryd â 300 awr o wasanaeth cymunedol yn lleol ac erbyn hyn derbyniodd swydd barhaol gyda'r cyflogwr hwnnw. Cadarnhaodd ei fod yn mynychu cyfarfodydd o'r "Gamblers Anonymous" yn weddol rheolaidd ac yn cynnal cyfarfodydd gyda'i weinidog. 'Roedd yn awyddus i gael trwydded tacsi er mwyn cael ychwaneg o arian i gynorthwyo ei deulu ac i dalu'r dyledion.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor.

Cymerodd yr Is-bwyllgor i ystyriaeth ganllawiau'r Cyngor am droseddau sy'n darparu –

- *"Ymdrinnir yn llym iawn ag ymgeiswyr gydag euogfarnau am niwed corfforol difrifol, clwyfo, ymosod neu unrhyw drosedd o natur dreisgar.*
- *Rhaid i ymgeisydd fod heb dderbyn euogfarnau am o leiaf tair blynedd cyn y gellir ystyried cais.*
- *Ym mhob achos, os caniateir trwydded, rhoddir rhybudd llym ynglyn ag ymddygiad disgwyliedig gyrwyr trwyddedig."*

'Roedd y drosedd a ddatgelwyd wedi digwydd yn Hydref 2011 ac mae canllawiau'r Cyngor yn datgan bod rhaid i i ymgeisydd fod heb dderbyn euogfarnau am o leiaf tair blynedd cyn y gellir ystyried cais. 'Roedd adroddiad gan y Biwro Cofnodion Troseddol yn cyfeirio at ladrata gan ei gyn gyflogwr ac felly 'roedd wedi camddefnyddio safle o ymddiriedaeth a bod hyn yn berthnasol yng nghyd-destun cyfrifoldebau gyrrwr tacsi. Ystyriwyd y drosedd yn un ddifrifol a bod gallu ymddiried mewn gyrrwr, oherwydd natur ei waith, yn holl bwysig. Am y rhesymau hyn, penderfynwyd gwrthod y cais.

**PENDERFYNWYD gwrthod cais Mr A am drwydded hacni/hurio preifat.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu i anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeisydd o benderfyniad yr Is-bwyllgor ac yn ei hysbysu o'i hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

**4. EITEM FRYS**

(Nid oedd y mater canlynol wedi ei gynnwys ar raglen yr is-bwyllgor, ond cytunodd y Cadeirydd ei gynnwys dan Adran 100B (4)(b), Deddf Llywodraeth Leol, oherwydd y derbyniwyd y cais ar ôl i'r rhaglen gan ei anfon at yr aelodau a'r angen i'r ymgeisydd gael penderfyniad buan)

**. Cais MR B. am drwydded gyrrwr hacni/hurio preifat**

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu yr adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr B. am drwydded gyrrwr hacni / hurio preifat. Eglurodd fod datganiad o gollfarn yn cyfeirio at droseddau perthnasol, ac mewn achosion o'r fath, nid oes hawl gan

swyddogion i ystyried y cais ac felly cyflwynwyd yr achos hwn i ystyriaeth yr is-bwyllgor. Nododd mai yn 2004 y cyflawnwyd y drosedd olaf. Cyflwynwyd y cais yn wreiddiol i'r is-bwyllgor ar 4 Mawrth 2013 pryd y penderfynwyd ei ohirio er rhoddi cyfle i'r ymgeisydd gyflwyno tystiolaeth feddygol o'i gyflwr. Derbyniwyd llythyr gan y meddyg yn rhoddi manylion am gyflwr meddygol yr ymgeisydd rhwng Mawrth 2003 a Medi 2004 ond nid oedd yn cyfeirio at ei anhwylder iechyd meddwl.

Hysbysodd yr ymgeisydd mai yn 2006 y canfyddwyd ei fod yn dioddef o anhwylder iechyd meddwl.

Yn wyneb y ffaith nad oedd llythyr y meddyg gyda'r wybodaeth gyfredol parthed anhwylder iechyd meddwl yr ymgeisydd, 'roedd yr is-bwyllgor o'r farn y dylid gohirio'r cais ymhellach hyd nes y derbynnir y wybodaeth honno.

**PENDERFYNWYD gohirio ystyried y cais ymhellach er rhoddi cyfle i'r ymgeisydd geisio tystiolaeth meddygol pellach o'i gyflwr o Tachwedd 2006 ymlaen.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu i anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeisydd o benderfyniad yr Is-bwyllgor ac yn ei hysbysu o'i hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 2.45pm.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL** |
| **DYDDIAD:** | **24 MEHEFIN 2013** |
| **TEITL:** | **FFIOEDD ARFAETHEDIG TRWYDDEDAU CERBYDAU HACNI, HURIO PREIFAT A GWEITHREDWYR** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH YR ADRAN RHEOLEIDDIO** |

## CEFNDIR

1. Mae gofyn i'r Cyngor adolygu ei ffioedd yng nghyswllt trwyddedu cerbydau hacni a hurio preifat yn rheolaidd.

2. Mae Adrannau 53 a 70 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn caniatáu codi ffioedd ar lefel sy'n ddigonol i adennill costau rhesymol -

    - I ganiatáu trwydded gyrrwr ar gyfer cerbyd hacni neu hurio preifat – costau ynghlwm â phrosesu, gweinyddu a rhoddi trwyddedau.
    - I ganiatáu trwydded cerbyd a gweithredwr – costau archwilio, arhosfan cerbyd hacni, rhybuddion cyhoeddus, rheoli a goruchwylio cerbydau ac unrhyw gostau eraill ynghlwm â phrosesu cais.

3. Rhaid i'r ffioedd a godir fod yn rhesymol a phenderfyniad y Cyngor yw p'un a yw'r ffioedd yn cael eu gosod ar lefel i alluogi adennill costau'n llawn neu'n rhannol, ai peidio. Yn hanesyddol, mae ffioedd wedi'u gosod ar lefel isel yng Ngwynedd o gymharu ag awdurdodau lleol eraill.

4. Mae'r costau nad ydynt yn cael eu hadennill o drwyddedau yn rhoi pwysau ar adnoddau'r Gwasanaeth, ac yn y pendraw, ar drethdalwyr y Cyngor. Mae dadansoddiad cost manwl o incwm yn erbyn gwariant ar y swyddogaeth hon wedi datgelu diffyg cyllidebol sylweddol na ellir ei gynnal ymhellach yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni. Byddai'n rhaid codi'r ffioedd gan o leiaf 37% er mwyn adennill y costau'n llawn.

## CYNNIG

5. **Cynigir cynnydd i holl ffioedd tacsis o 25% gyda cynnydd pellach er pwrpas symud tuag at adennill costau'n llawn yn 2014/15. Bydd y cynnydd arfaethedig, os caiff ei gymeradwyo, yn amodol ar ymgynghoriad statudol. Yn y dyfodol, fe fydd costau darparu'r gwasanaeth yn cael eu hasesu'n flynyddol.**

6. Amgaeir rhestr lawn y ffioedd cyfredol a'r ffioedd arfaethedig gyda'r adroddiad hwn.

## Y SEFYLLFA BRESENNOL

7. Codwyd ffioedd ar gyfer rhoddi trwyddedau cerbydau hacni a hurio preifat (HP) i gerbydau, gyrwyr a gweithredwyr yn unol â chwyddiant yn unig yn 2012/13. Yn 2010/11, codwyd y prif ffioedd ynghlwm â thrwyddedu tacsis gan rhwng 17% a 49% i adlewyrchu cynnydd mewn costau yn sgil chwyddiant na chafodd ei godi mewn blynyddoedd blaenorol ac, yng nghyd-destun y cynnydd mewn ffioedd a weithredwyd mewn awdurdodau lleol eraill.

**Ffioedd Tacsis Gwynedd – 2007-2013**

| Math o drwydded | 2007/2008 | 2011/2012 | 2012/2013 | Arfaethedig 2013/14 |
|---|---|---|---|---|
| Cerbyd Hacni neu HP | 77 | 90 | 92 | 115 |
| Gweithredwyr HP | 72 | 107 | 109 | 136.25 |
| Gyrrwr Hacni neu HP | 57 | 80 | 82 | 102.50 |

**Ffioedd Tacsis – Awdurdodau Lleol eraill 2013/14**

| **Math o drwydded** | CERBYD HACNI NEU HP | GWEITHREDWYR HP | GYRRWR HACNI NEU HP |
|---|---|---|---|
| **GWYNEDD (arfaethedig)** | **115** | **136.25** | **102.50** |
| POWYS (ffioedd 12/13) | 129.50 | 172.40 | 140.70 |
| BRO MORGANNWG | 230 | 225 | 80 |
| CASNEWYDD | 220 | 300* | 300* |
| BLAENAU GWENT | 154 | 82 | 41* |
| TORFAEN | 185 | 278* | 113* |
| SIR GAERFYRDDIN | 141.45* | 133.25 | 33 |
| YNYS MÔN | 126 | 117.50 | 102* |
| CONWY | 220* | 130* | 145* |

* nid oes modd cymharu'r data – mae rhai ffioedd yn cynnwys gwiriadau DBS; costau MOT a phrofi; ffioedd gweithredwyr yn cynyddu y mwyaf o gerbydau sydd yn y fflyd; amrywio ar gyfer ceisiadau newydd neu adnewyddu ac ati.

## CYMHARU Â FFIOEDD A GODIR GAN AWDURDODAU LLEOL ERAILL

8. Fe welir o'r tabl, hyd yn oed gyda'r cynnydd arfaethedig o 25%, mae ffioedd trwyddedau tacsis Gwynedd yn parhau i fod ymhlith yr isaf yng Nghymru.
   Mae nifer o Awdurdodau Lleol wedi adrodd i'w Pwyllgorau dros y flwyddyn ddiwethaf bod pwysau ariannol wedi'i gwneud hi'n amhosib cynnal ffioedd cymorthdaledig.

## YMGYNGHORI Â'R DIWYDIANT

9. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y bwriad i godi'r ffioedd er mwyn symud tuag at adennill costau gyda'r Aelod Cabinet, y Cynghorydd John Wyn Williams. Cynhaliwyd ymgynghoriad mewnol ar y ffioedd arfaethedig hefyd gyda Phennaeth yr Adran Gyllid. Unwaith y bydd y Pwyllgor hwn yn gwneud penderfyniad ar y ffioedd arfaethedig bydd ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn cychwyn yn unol â'r gofynion statudol.

10. Mae Adran 70 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn datgan bod yn ofynnol i rybudd cyhoeddus o newidiadau arfaethedig i ffioedd ymddangos yn y wasg leol.

Rhoddir y rhybudd yn y wasg leol ar 17 Gorffennaf 2013, neu cyn hynny, a chynhelir ymgynghoriad uniongyrchol â'r diwydiant tacsis cyn y dyddiad hwn a fydd yn rhoi digon o gyfle i roi sylw i unrhyw bryderon.
Rhaid i'r rhybudd hwn gynnwys dyddiad pan fydd y ffioedd yn dod yn weithredol, 28 diwrnod ar ôl dyddiad y rhybudd ar yr amod na cheir gwrthwynebiadau i'r ffioedd. Bydd rhaid i unrhyw wrthwynebiadau i'r ffioedd gael eu hystyried gan y Pwyllgor hwn yn ystod ei gyfarfod nesaf ar 16 Medi 2013 a rhaid gwneud penderfyniad ar lefel y ffioedd yn unol â hynny. Ni fydd ffioedd newydd yn dod yn weithredol hyd oni ceir penderfyniad terfynol gan y Pwyllgor hwn.

## YSTYRIED Y RISGIAU

11. Ceir risgiau posib ynghlwm â chodi ffioedd tacsis; fodd bynnag, mae risgiau hefyd ynghlwm â chynnal y ffioedd ar lefel isel heb symud tuag at adennill costau.

12. Yn y cyd-destun economaidd cyfredol, cydnabyddir y bydd unrhyw gynnydd mewn ffioedd yn cael ei weld fel baich ychwanegol ar y diwydiant tacsis. Mae'r cynnydd yn gyfystyr a chost ychwanegol o £20.50 ar gyfer trwydded gyrrwr; a £23 ar gyfer trwydded cerbyd. Mae hyn yn gynnydd llai na phunt yr wythnos ar gyfer gyrrwr/perchennog gydag un cerbyd.

13. Fodd bynnag, ar ôl ystyried yr oll o'r ffactorau perthnasol, mae'n amlwg nad ydyw cynnal y sefyllfa gyfredol o ariannu'r broses drwyddedu yn gynaliadwy.

## ARGYMHELLIAD

14. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a chymeradwyo cynnig Pennaeth yr Adran Rheoleiddio i godi holl ffioedd tacsis gan 25% gan symud tuag at adennill costau'n llawn yn 2014/15.

15. Bydd y cynnydd arfaethedig, os caiff ei gymeradwyo, yn amodol ar ymgynghoriad statudol a bydd costau darparu'r gwasanaeth yn cael eu hasesu'n flynyddol.

| FFIOEDD ARFAETHEDIG – TRWYDDEDAU TACSIS | | FFIOEDD 2012/13 | | | FFIOEDD ARFAETHEDIG 2013/14 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ffi/Pris Eithrio TAW / Fee/Charge excluding VAT | TAW / VAT @ 20% | Ffi/Pris yn cynnwys TAW lle'n berthnasol / Fee/Charge including VAT where applicable | Ffi/Pris Eithrio TAW / Fee/Charge excluding VAT | TAW / VAT @ 20% | Ffi/Pris yn cynnwys TAW lle'n berthnasol / Fee/Charge including VAT where applicable | Cynnydd/ Increase |
| **Hacni a Hurio Preifat** | **Hackney and Private Hire** | | | | | | | |
| Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni a Hurio Preifat | Hackney Carriage and Private Hire Drivers Licence | £82.00 | £0.00 | £82.00 | £102.50 | £0.00 | £102.50 | 25.0% |
| Trwydded Gweithredwr Hurio Preifat | Private Hire Operators Licence | £109.00 | £0.00 | £109.00 | £136.25 | £0.00 | £136.25 | 25.0% |
| Trwydded Gweithredwr Hurio Preifat - Cludiant Ysgolion | Private Hire Operators Licence - School Transport | £54.00 | £0.00 | £54.00 | £67.50 | £0.00 | £67.50 | 25.0% |
| Trwydded Hacni Ceffyl a Char | Horse Drawn Hackney Carriage Licence | £92.00 | £0.00 | £92.00 | £115.00 | £0.00 | £115.00 | 25.0% |
| **Categori** | **Category** | £92.00 | £0.00 | £92.00 | £115.00 | £0.00 | £115.00 | 25.0% |
| Trwydded Cerbyd Hurio Preifat | Private Hire Vehicle Licence | £92.00 | £0.00 | £92.00 | £115.00 | £0.00 | £115.00 | 25.0% |
| Trwydded Cerbyd Hurio Preifat - Cludiant Ysgolion | Private Hire Vehicle Licence - School Transport | £54.00 | £0.00 | £54.00 | £67.50 | £0.00 | £67.50 | 25.0% |
| Adnewyddu Bathodyn Adnabod Gyrrwr | Replacement Drivers ID Badge | £9.00 | £0.00 | £9.00 | £11.25 | £0.00 | £11.25 | 25.0% |
| Plat Trwydded Cerbyd (Par) | Vehicle Licence Plate (Pair) | £21.00 | £0.00 | £21.00 | £26.25 | £0.00 | £26.25 | 25.0% |
| Braced Plat Trwydded Cerbyd (Par) | Vehicle Licence Place Bracket (Pair) | £21.00 | £0.00 | £21.00 | £26.25 | £0.00 | £26.25 | 25.0% |
| Trosglwyddo Trwydded i gerbyd arall - Cerbyd Hacni neu Cerbyd Hurio Preifat | Transfer of Licence to replacement vehicle - Hackney Carriage or Private Hire Vehicle | £45.00 | £0.00 | £45.00 | £56.25 | £0.00 | £56.25 | 25.0% |
| Trosglwyddo Trwydded i Perchennog newydd - Cerbyd Hacni neu Cerbyd Hurio Preifat | Transfer of Licence to new Proprietor - Hackney Carriage or Private Hire Vehicle | £45.00 | £0.00 | £45.00 | £56.25 | £0.00 | £56.25 | 25.0% |
| Plat Cerbyd (Yr un) | Vehicle Plate (Each) | £11.00 | £0.00 | £11.00 | £13.75 | £0.00 | £13.75 | 25.0% |
| Plat Mewnol | Internal Plate | £10.00 | £0.00 | £10.00 | £12.50 | £0.00 | £12.50 | 25.0% |
| Llawes Plat Mewnol | Internal Plate Sleeve | £3.00 | £0.00 | £3.00 | £3.75 | £0.00 | £3.75 | 25.0% |
| Sticer Drws Cerbyd Hurio Preifat (Yr un) | Private Hire Door Sticker (Each) | £11.00 | £0.00 | £11.00 | £13.75 | £0.00 | £13.75 | 25.0% |
| Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd | Disclosure and Barring Service Check | | | | | | | |
| Ffi Statudol | Statutory Fee | £44.00 | £0.00 | £44.00 | £44.00 | £0.00 | £44.00 | 0.0% |
| Ffi Weinyddol | Admin Fee | £6.00 | £1.20 | £7.20 | £6.00 | £0.00 | £6.00 | 0.0% |